

Gwybodaeth a Threfniadau Derbyn 2022-23:

Y Blynyddoedd Cynnar, Cynradd ac Uwchradd



Byw, dysgu, gweithi a chwarae yn Mhowys

Live, learn, work and play in Powys



Cynnwys

Gwybodaeth a Chyngor	3
Dyddiadau Allweddol Pwysig ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022 / 2023	4
Meini Prawf Derbyn Disgyblion i Ysgol	9
Derbyn Disgyblion gydag Anghenion Addysgol Arbennig neu Anghenion Dysgu Ychwanegol..	12
Ysgolion Arbennig	12
Meini Prawf Derbyn Dysgwyr i Ysgolion Arbennig	12
Derbyn Plant i Ganolfannau Arbenigol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion	13
Gwybodaeth Derbyn Ychwanegol	13
Ceisiadau Hwyr	13
Ceisiadau Cynnar.....	14
Derbyn Plant ar Adegau Eraill (Yn Ystod y Flwyddyn)	14
Dewis Ysgolion	15
Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr (Ysgolion Ffydd)	16
Derbyn Disgyblion i Ysgolion nad ydynt yn cael eu cynnal gan Gyngor Sir Powys	16
Addysg Gyfrwng Cymraeg.....	16
Maint Dosbarthiadau Babanod	17
Apeliadau yn erbyn penderfyniadau derbyn	18
Cludiant Ysgol	19
Atodiadau	20
Atodiad A: Ysgolion Cynradd.....	20
Atodiad B: Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr (Ysgolion Ffydd).....	34
Atodiad C: Ysgolion Uwchradd.....	36
Atodiad D: Rhestr o Ysgolion Bwydo	39
Atodiad E: Grwpiau Blwyddyn	44

Gwybodaeth a Chyngor

Mae'r dogfennau canlynol yn nodi pa wybodaeth dylai fod ar gael i rieni o ran ysgolion a threfniadau derbyn disgyblion:

- Adran 84 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998¹
- Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2013)²
- Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion (Rhagfyr 2013)³

Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/derbyniadau-ysgolion?_ga=2.140902385.2112941654.1599814428-106305477.1536835031

Cewch ddweud pa bynnag ysgol gynradd neu uwchradd sy'n ddewisach gennych o blith y rhai a restrir yn y llyfryn hwn.

Os na allwch gael lle i'ch plentyn yn yr ysgol sydd orau gennych am unrhyw reswm, mae gennych hawl apelio i'r Panel Apeliadau a sefydlwyd gan yr Awdurdod Lleol at y diben hwnnw. Dylech wneud cais i'r Rheolwr Gwasanaethau Cefnogol Addysg, Derbyniadau i Ysgolion, Y Gwasanaeth Ysgolion, Neuadd y Sir, Cyngor Sir Powys Llandrindod, Powys, LD1 5LG. Mae mwy o wybodaeth am Apeliadau Derbyn ar dudalen 17 o'r llyfryn hwn.

Os hoffech wybod mwy am ysgol benodol, cewch ofyn am brospectws o'r ysgol dan sylw. Bydd y llyfryn hwnnw'n cynnwys llawer mwy o fanylion. Unwaith 'rydych wedi gwneud eich dewis ysgol, mae'n hanfodol eich bod yn mynd ati i gwblhau'r ffurflenni er mwyn gwneud cais am lle.

Mae Swyddfa'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn Neuadd y Sir Powys, Llandrindod ac maent ar gael bob amser i roi cyngor i chi. Dyma eu manylion cyswllt:

Derbyn i Addysg y Blynyddoedd Cynnar - 01597 826449

Derbyn i Ysgolion Cynradd (i'r Dosbarth Derbyn) - 01597 826499

Derbyn i Ysgolion Uwchradd (i Flwyddyn 7) - 01597 826499

E-bost: admissions@powys.gov.uk / preschooladmissions@powys.gov.uk

Pan fydd angen derbyn plentyn y tu allan i'r cylch derbyn (yn ystod y flwyddyn) cysylltwch â 01597 826477.

Gwefan Derbyn Disgyblion: <https://cy.powys.gov.uk/article/3742/Amserlenni-Derbyniadau-ac-Apeliadau>

Os ydych yn debygol o angen derbyn trafndiaeth o'ch cartref i'r ysgol, yna plis sicrhewch i weld os ydych yn gymwys - <https://en.powys.gov.uk/article/3879/Apply-for-school-transport>

¹ Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998: <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/31/contents/enacted>

² Cod Derbyn i Ysgolion: <https://llyw.cymru/y-cod-derbyn-i-ysgolion>

³ Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion: https://llyw.cymru/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion?_ga=2.196275564.1947684685.1594023020-1268835711.1564562772

Dyddiadau Allweddol Pwysig ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022 / 2023

Cylch Derbyn Oed Cyn-ysgol (Disgyblion a anwyd rhwng 1 Medi 2019 – 31 Awst 2020)	
Dydd Llun 28 Mawrth 2022	Mae'r cylch derbyn cyn oed ysgol yn agor
Dydd Gwener 24 Mehefin 2022	Mae'r cylch derbyn cyn oed ysgol yn cau
Dydd Gwener 21 Hydref 2022	Dyddiad cynnig cyn oed ysgol

* Nid oes hawl i apelio gan fod hwn mewn perthynas ag addysg anstatudol.

Cylch Derbyn Ysgolion Cynradd (Disgyblion a anwyd rhwng 1 Medi 2017 – 31 Awst 2018)	
Dydd Llun 4 Hydref 2021	Mae'r cylch derbyn ysgolion cynradd yn agor
Dydd Gwener 7 Ionawr 2022	Mae'r cylch derbyn ysgolion cynradd yn cau
Dydd Mawrth 19 Ebrill 2022 ⁴	Dyddiad cynnig cyffredinol ysgolion cynradd
Dydd Mawrth 3 Mai 2022 ⁵	Rhaid derbyn apêl erbyn y dyddiad hwn fan bellaf
Dydd Llun 20 Mehefin 2022	Rhaid clywed apêl erbyn y dyddiad hwn fan bellaf

Cylch Derbyn Ysgolion Iau (Disgyblion a anwyd rhwng 1 Medi 2014 – 31 Awst 2015)	
Dydd Llun 4 Hydref 2021	Mae'r cylch derbyn ysgolion iau yn agor
Dydd Gwener 7 Ionawr 2022	Mae'r cylch derbyn ysgolion cynradd yn cau
Dydd Mawrth, 19 Ebrill 2022 ⁴	Dyddiad cynnig cyffredinol ysgolion iau
Dydd Mawrth 3 Mai 2022 ⁵	Rhaid derbyn apêl erbyn y dyddiad hwn fan bellaf
Dydd Llun 20 Mehefin 2022	Rhaid clywed apêl erbyn y dyddiad hwn fan bellaf

Cylch Derbyn Ysgolion Uwchradd (Disgyblion a anwyd rhwng 1 Medi 2010 – 31 Awst 2011)	
Dydd Llun 20 Medi 2021	Mae'r cylch derbyn ysgolion uwchradd yn agor
Dydd Gwener 12 Tachwedd 2021	Mae'r cylch derbyn ysgolion uwchradd yn cau
Dydd Mawrth 1 Mawrth 2022	Dyddiad cynnig cyffredinol ysgolion uwchradd
Dydd Llun 21 Mawrth 2022	Rhaid derbyn apêl erbyn y dyddiad hwn fan bellaf
Dydd Llun 16 Mai 2022	Rhaid clywed apêl erbyn y dyddiad hwn fan bellaf

⁴ Oherwydd dydd Llun y Pasg

⁵ Oherwydd Dydd Llun Gŵyl y Banc

Oedran derbyn disgyblion a gwneud cais am le mewn ysgol

Darpariaeth i blant teirblwydd a phedair blwydd (Cyn-ysgol)

Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu'r Awdurdod Lleol i sicrhau y caiff pob plentyn yng Nghymru Addysg y Blynyddoedd Cynnar rhan amser am ddim o ddechrau'r tymor tan ben-blwydd y plentyn yn deirblwydd. Gall pob plentyn cymwys dderbyn mwyafswm o **ddeng awr** o Addysg y Blynyddoedd Cynnar wedi'i hariannu yr wythnos os ydynt yn mynychu lleoliad addysg cyn-ysgol a ariennir. Mae darparwyr yn cynnwys cylchoedd chwarae, Cylchau Meithrin, meithrinfeydd a lleoliadau mewn ysgolion. Ewch i <https://cy.powys.gov.uk/article/2004/Dod-o-hyd-i-ofal-plant-meithrinfeydd-a-chylchoedd-chwarae> i weld manylion am lleoliadau cyn-ysgol ym Mhowys.

Mae gan rieni a gofalwyr hawl i gael deng awr o addysg a ariennir yr wythnos, sef un sesiwn y dydd. Mae rhai lleoliadau'n cynnig pum sesiwn o ddwy awr yr wythnos tra bod eraill yn cynnig pedair sesiwn dwy awr a hanner yr wythnos.

Caiff rhieni / gofalwyr wneud cais am le rhan amser (yn y bore neu'r prynhawn) mewn lleoliad addysgol cyn-ysgol a ariennir sy'n gymwys ac yn gofrestredig. Mae hyn ar gyfer plentyn a anwyd rhwng **1 Medi 2019 a 31 Awst 2020**. Rydym yn derbyn plant i ysgol teirgwaith mewn blwyddyn ysgol - ym mis Ionawr, mis Ebrill a mis Medi. Mae'r dyddiadau derbyn yn gysylltiedig â dyddiadau tymor ysgol. Gallwch weld y dyddiadau yma ar wefan Powys: <https://cy.powys.gov.uk/article/1879/Dyddiadaur-Tymhorau-Ysgol>

Mae'r tabl isod yn dangos pryd y bydd eich plentyn yn gymwys am hyd at bum tymor o ddarpariaeth cyn-ysgol rhan amser a ariennir.

Os cafodd eich plentyn ei (g)eni rhwng dyddiadau ...	Tymor Cymwys
1 Ebrill a 31 Awst	Tymor yr Hydref ar ôl ei phen-blwydd yn dair oed
1 Medi a 31 Rhagfyr	Tymor y Gwanwyn ar ôl ei ben-blwydd yn dair oed
1 Ionawr a 31 Mawrth	Tymor yr Haf ar ôl ei phen-blwydd yn dair oed

Dylech lenwi ffurflen gais a'i dychwelyd i'r Tîm Derbyniadau ynghyd â **chopi** o dystysgrif eni'r plentyn **[peidiwch ag anfon y ddogfen wreiddiol]**. Mae ffurflen gais ar gael ar wefan Powys: <https://cy.powys.gov.uk/article/8868/Cais-am-Leoliad-Cyn-Ysgol-3-a-4-oed> Mae'n bwysig cadarnhau amserau agor lleoliad cyn llenwi'r ffurflen gais gan fod yr oriau agor yn amrywio rhwng y lleoliadau.

Rhaid inni dderbyn ffurflenni cais erbyn **dydd Gwener, 24 Mehefin 2022** fan bellaf. Byddwn yn ystyried ffurflenni a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad yma'n 'Geisiadau Hwyr'. Os digwydd hyn efallai na fyddwn yn dyrannu'r lleoliad (lleoliadau) i'ch plentyn yr ydych wedi gofyn amdano/amdanynt. Mae hyn yn eithrio plant sy'n derbyn gofal neu blant sydd wedi bod yn derbyn gofal. Rhoddir blaenoriaeth i'r plant hyn cyn ystyried y meini prawf hyn:

- a. Y lleoliad agosaf at fan preswyl arferol y plentyn⁶ lle mae brawd neu chwaer⁷ yn mynychu'r lleoliad ar yr adeg pan fydd y plentyn yn dechrau yna. Os yw'r lleoliad yn rhan o gampws ysgol ac os yw brawd neu chwaer y plentyn yn mynychu'r ysgol honno byddwn yn ystyried hynny pan fydd y plentyn yn dechrau yn y lleoliad. Ond bydd hwn ar yr amod bod y plentyn yn byw yn nalgylch yr ysgol fel arfer.
- b. Y lleoliad agosaf at le mae'r plentyn yn byw¹ fel arfer.
- c. Ar hyn o bryd yn mynychu Lleoliad Dechrau'n Deg sy'n rhannu'r un safle â lleoliad o ddewis y rhiant/gofalwr.
- d. Os bydd y plentyn yn byw y tu allan i ddalgylch y lleoliad ac mae ganddo frawd neu chwaer² sy'n mynychu'r lleoliad pan fydd y plentyn yn dechrau yna. Os yw lleoliad yn rhan o gampws ysgol ac os yw brawd neu chwaer y plentyn yn mynychu'r ysgol honno, byddwn yn ystyried hynny pan fydd y plentyn yn dechrau yn y lleoliad.
- e. Os yw'r plentyn yn byw y tu allan i ddalgylch y lleoliad.

Ar gyfer y plant hynny sy'n mynychu gofal diwrnod llawn mewn lleoliad yn barod, neu lleoliad Dechrau'n Deg ar adeg y cais, byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau lle yn y lleoliad hwnnw ar gyfer Darpariaeth Addysg a Ariennir y Blynyddoedd Cynnar. Fodd bynnag, ni fydd modd gwneud hynny bob amser ac efallai y bydd rhaid i ni gynnig lle mewn lleoliad arall.

Gan nad yw addysg cyn-ysgol yn statudol nid oes hawl apelio yn erbyn y penderfyniad. Lle bydd lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ar safle ysgol gynradd, nid yw'r ffaith ein bod wedi dyrannu lle cyn-ysgol yn sicrhau lle mewn dosbarth Derbyn yr ysgol gynradd honno.

Nid oes trafndiaeth o'r Cartref i'r Ysgol ar gyfer Addysg Blynyddoedd Cynnar.

Am wybodaeth ar addysg Gymraeg, ewch i dudalen 16.

Derbyn Disgyblion i Ysgolion Cynradd

Rhaid gwneud cais ar-lein am le mewn dosbarth Derbyn mewn un o ysgolion cynradd Powys rhwng **dydd Llun, 4 Hydref 2021** a **dydd Gwener, 7 Ionawr 2022**. Gallwch wneud hyn trwy ymweld â gwefan Powys: <https://cy.powys.gov.uk/article/7627/Gwneud-Cais-am-Le-Mewn-Ysgol>. Bydd rhieni/gofalwyr yn derbyn e-bost **ddydd Mawrth, 19 Ebrill 2022** yn eu hysbysu a ydym wedi dyrannu lle i'w plentyn yn eu hysgol dewis cyntaf.

⁶ Y cartref arferol yw lle mae'r rhiant/gofalwr sy'n derbyn y budd-dal plant ar gyfer y plentyn yn byw fel arfer (mae hwn hefyd yn berthnasol pan fydd plentyn yn byw gyda rhiant/gofalwyr sy'n rhannu cyfrifoldeb am ran o'r wythnos).

⁷ Mae 'brawd neu chwaer' yn cynnwys hanner brodyr a chwiorydd, llys frodyr a chwiorydd, plant sydd wedi cael eu maethu a phlant sy'n derbyn gofal (neu blant a fu'n derbyn gofal) sy'n byw ar yr un aelwyd.

Mae ceisiadau a wnaed ar ôl **dydd Gwener, 7 Ionawr 2022** yn **geisiadau hwyr**.

Oni bai bod trefniadau derbyniol eraill wedi cael eu gwneud, rhaid i blentyn fynychu'r ysgol yn llawn amser o ddechrau'r tymor yn dilyn ei ben-blwydd / ei phen-blwydd yn bum blwydd. Caiff plentyn ei dderbyn i'r ysgol ym Mhowys ar gais y rhiant / gofalwr yn llawn neu'n rhan amser ar ddechrau Tymor yr Hydref yn dilyn ei ben-blwydd yn bedair blwydd. Dim ond unwaith rydym yn derbyn plant ym mhob blwyddyn academiaidd.

Os cafodd eich plentyn ei eni / ei geni rhwng	Dyddiad dechrau
1 Medi 2017 a 31 Awst 2018	Medi 2022
1 Medi 2018 a 31 Awst 2019	Medi 2023
1 Medi 2019 a 31 Awst 2020	Medi 2024
1 Medi 2020 a 31 Awst 2021	Medi 2025

Mae wyth o ysgolion a Gynorthwyr a Sefydledig ym Mhowys sy'n gyfrifol am bennu eu polisi derbyn eu hunain (gweler **Atodiad C**). Sylwch y gall y polisi ar gyfer yr ysgolion hyn fod yn wahanol i un yr Awdurdod Lleol. Os ydych yn dymuno i'ch plentyn fynd i Ysgol Ffydd neu Ysgol a Gynorthwyr, dylech gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol. Corff Llywodraethu'r ysgolion hyn sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion i'r ysgol.

Isod mae rhestr Ysgolion a Gynorthwyr ac Ysgolion Sefydledig Powys ac mae manylion llawn i'w gweld yn **Atodiad B**.

- Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru yr Archddiacon Griffiths, Llyswen
- Ysgol yr Eglwys yng Nghymru (a Gynorthwyr) Llanbedr
- Ysgol yr Eglwys yng Nghymru (a Gynorthwyr) Llangatwg
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru (a Gynorthwyr) Llansantffraid
- Ysgol yr Eglwys yng Nghymru (a Gynorthwyr) Priordy, Aberhonddu
- Ysgol Gynradd (Gatholig) Wirfoddol a Gynorthwyr y Santes Fair, Y Drenewydd
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru (a Gynorthwyr) Sant Mihangel, Ceri
- Ysgol Cwm Banwy, ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr Yr Eglwys yng Nghymru, Llangadfan

Ysgolion dydd gydaddysgol yw pob un o Ysgolion Cynradd Powys. Fe welwch manylion llawn yn **Atodiad A**.

Mae lleoliadau cyn ysgol yn trefnu ymweliadau i ysgolion cyn dechrau'n llawn amser neu'n rhan amser. Bydd hyn yn digwydd yn Nhymor yr Haf cyn dechrau'r flwyddyn ysgol.

Os yw'ch plentyn yn mynychu meithrinfa nas cynorthwyr, neu ddarpariaeth cyn-ysgol a gynorthwyr neu nas cynorthwyr sy'n gysylltiedig ag ysgol fabanod neu ysgol gynradd, ac rydych am i'ch plentyn fynd i'r ysgol honno, bydd rhaid gwneud cais am le yn y prif ysgol pan fydd eich plentyn yn barod i ddechrau addysg llawn amser.

Derbyniadau i Ysgolion Cynradd ac Ysgolion Iau (Blwyddyn 3) o Ysgol Fabanod

Ar gyfer y disgyblion hynny sy'n mynychu Ysgol Fabanod Mount Street, bydd rhaid iddynt wneud cais i gael eu derbyn i flwyddyn 3 mewn unrhyw ysgol gynradd neu ysgol iau ym mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn saith mlwydd.

Rhaid gwneud cais ar-lein am le rhwng **dydd Llun, 4 Hydref 2021 a dydd Gwener, 7 Rhagfyr 2022**. Ewch i wefan Powys i wneud hyn: <https://cy.powys.gov.uk/article/7627/Gwneud-Cais-am-Le-Mewn-Ysgol>

Bydd rhieni/gofalwyr yn derbyn e-bost ar **ddydd Mawrth, 19 Ebrill 2022** yn dweud wrthynt p'un a ydym wedi dyrannu lle i'w plentyn yn ysgol eu dewis cyntaf.

Mae ceisiadau a wneir ar ôl **dydd Gwener, 7 Rhagfyr 2022** yn **geisiadau hwyr**.

Nid yw cael lle mewn ysgol fabanod yn rhoi sicrwydd y cewch le yn yr ysgol iau gyfagos. Os bydd y gofyn am leoedd yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael, bydd meini prawf derbyn yr Awdurdod yn berthnasol.

Derbyn Disgyblion i Ysgolion Uwchradd (Blwyddyn 7)

Mae plant yn cael eu derbyn i ysgolion uwchradd ar ddechrau Blwyddyn 7. Rhaid i chi wneud cais ar-lein am le mewn un o ysgolion uwchradd Powys rhwng **dydd Llun, 20 Medi 2021 a dydd Gwener, 12 Tachwedd 2021** trwy ymweld â gwefan Powys. <https://cy.powys.gov.uk/article/7627/Gwneud-Cais-am-Le-Mewn-Ysgol> .

Bydd rhieni/gofalwyr yn derbyn e-bost ar **ddydd Mawrth, 1 Mawrth 2022** yn rhoi gwybod a ydym wedi dyrannu lle i'w plentyn yn ysgol eu dewis cyntaf.

Os bydd rhiant/gofalwr yn dymuno i'w plentyn fynychu ysgol uwchradd y tu allan i'r sir bydd angen iddynt lenwi copi caled o ffurflen gais Dewis Rhieni ar gyfer yr Ysgol Uwchradd. Mae hwn ar gael trwy ebostio admissions@powys.gov.uk. Bydd y Tîm Derbyn yn cyd-drafod â'r Awdurdod Lleol cyffiniol mewn perthynas â lle ar gyfer eu plentyn.

Mae ceisiadau a wneir ar ôl **dydd Gwener, 12 Tachwedd 2021** yn **geisiadau hwyr** a rhaid eu gwneud trwy gopi papur y gallwch ei lawrlwytho o wefan Powys.

Nid yw cael lle mewn ysgol gynradd yn rhoi sicrwydd y cewch le yn yr ysgol uwchradd sy'n gysylltiedig â hi. Bydd meini prawf derbyn yr Awdurdod yn berthnasol os bydd y gofyn yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael.

Derbyn Disgyblion i'r Chweched Dosbarth (Blwyddyn 12 a 13)

Dylid gwneud pob cais am le yn y chweched dosbarth trwy wefan Llwybrau Dysgu Powys (www.llwybraudysgupowys.cymru). Darperir hwn gan Rwydwaith 14-19 Powys. Ar hyn o bryd ysgolion uwchradd Powys sy'n gyfrifol am dderbyn dysgwyr i'r chweched dosbarth.

Mae'r Awdurdod yn gwneud ei orau glas i ddarparu ar gyfer pob dysgwr ôl 16 yn unol â'u hanghenion. Mae darpariaeth ôl-16 ar gyfer dysgwyr mewn addysg arbennig yn cael ei hystyried yn ofalus o 14 oed ac yn hŷn ac ymgynghorir â rhieni'n llawn. Unwaith bydd plentyn sydd mewn addysg arbennig yn troi'n bedair ar ddeg oed rydym yn dechrau rhoi ystyriaeth ofalus i'r ddarpariaeth ar eu cyfer pan fyddant yn 16 oed a hŷn. Rydym yn ymgynghori'n drwyadl â rhieni yn hyn o beth. Mae'r dewisiadau ôl 16 yn cynnwys mynediad i gyflogaeth, mynediad i Gynllun Hyfforddi Ieuencid, aros yn yr ysgol ar gyfer chweched dosbarth neu dilyn cwrs Addysg Bellach.

Meini Prawf Derbyn Disgyblion i Ysgol.

Mae penderfyniadau ar dderbyn i ysgolion rhwng yr Awdurdod Lleol ac Ysgolion a Reolir gan Yr Eglwys yng Nghymru'n wahanol i Ysgolion Ffydd a Sefydledig ym Mhowys. Mae'r Ysgolion Ffydd a Sefydledig yn gweinyddu eu polisiau derbyn eu hunain (gweler **Atodiad B**) a gall hwn fod yn wahanol i un yr Awdurdod Lleol.

Pan fo mwy o geisiadau na lleoedd ar gael mewn ysgol rhaid cyhoeddi'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar dderbyn plant. Mae hwn yn unol â Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Weithiau bydd datganiad o anghenion addysgol arbennig yn enwi ysgol y dylai plentyn ei mynychu oherwydd bod gan yr ysgol honno'r adnoddau i ddiwallu anghenion y disgybl orau. Os felly, byddwn yn dyrannu lle'n awtomatig i'r disgybl yn yr ysgol benodol honno.

Pan fo mwy o geisiadau na lleoedd ar gael mewn ysgol, byddwn yn ystyried pob ymgeisydd yn erbyn y meini prawf isod wrth inni ddyrannu lleoedd ysgol. Ond nid yw'r rhain yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal neu blant a fu'n derbyn gofal yn flaenorol; plant sydd â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig; neu blant sydd â chynllun datblygu unigol a gynorthwyir gan yr awdurdod lleol. Bydd y plant hyn yn cael blaenoriaeth cyn ystyried y meini prawf.

Defnyddir y meini prawf canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth, wrth ddyrannu llefydd mewn ysgolion cynradd:

- a. Presenoldeb brawd neu chwaer hŷn sy'n byw ar yr un aelwyd, i'r ysgol gynradd agosaf, pan fydd y disgybl yn dechrau yn yr ysgol. I fod yn gymwys, rhaid i'r brodyr neu'r chwiorydd cynradd fod yn y dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 ac yn achos ysgol pob oed, rhaid i'r brodyr neu chwiorydd hŷn fod rhwng blynyddoedd 7 - 13⁸.
- b. Yr ysgol gynradd sydd agosaf at y cartref.

⁸ Sylwch na fydd brodyr a chwiorydd sy'n ymuno ag ysgol uwchradd ar gyfer addysg 6ed dosbarth yn unig (blynyddoedd 12 a 13) neu'n mynychu 6ed dosbarth ar drefniant cydweithredol yn cael eu hystyried fel frawd neu chwaer yn yr ysgol.

- c. Unrhyw anghenion meddygol a chymdeithasol sy'n ymwneud â'r plentyn unigol lle bydd yn hanfodol mynd i ysgol benodol. Bydd angen tystiolaeth i gyd-fynd â'r ffurflen gais.
- d. Presenoldeb brawd neu chwaer hŷn sy'n byw ar yr un aelwyd, lle NAD yr ysgol gynradd yw'r un agosaf i'r cartref pan fydd y disgybl yn dechrau'r ysgol. I fod yn gymwys, rhaid i frodyr neu chwiorydd cynradd fod yn y dosbarth derbyn i Flwyddyn 7 ac yn achos Ysgol Pob Oed, dylai frodyr neu chwiorydd uwchradd fod rhwng Blynnyddoedd 7 – 13 ⁶.
- e. Lleoliad y cartref mewn perthynas â'r ysgol ac ysgolion eraill os nad yr ysgol gynradd a ddewisiwyd yw'r un sydd agosaf i'r cartref.

Defnyddir y meini prawf canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth, wrth ddyrannu llefydd mewn ysgolion uwchradd:

- a. Presenoldeb brawd neu chwaer hŷn sy'n byw ar yr un aelwyd, gyda'r cartref o fewn y dalgyrch uwchradd pan fydd y disgybl yn dechrau yn yr ysgol. I fod yn gymwys, rhaid i'r brodyr neu'r chwiorydd uwchradd fod rhwng Blynnyddoedd 7 – 13 ⁶. Yn achos ysgol pob oed, rhaid i'r brodyr neu chwiorydd hŷn fod rhwng dosbarth derbyn a Blwyddyn 6. ⁶
- b. Lleoliad y cartref os yw o fewn ardal dalgyrch uwchradd yr ysgol.
- c. Unrhyw anghenion meddygol a chymdeithasol sy'n ymwneud â'r plentyn unigol lle bydd yn hanfodol mynd i ysgol benodol. Bydd angen tystiolaeth i gyd-fynd â'r ffurflen gais.
- d. Presenoldeb brawd neu chwaer hŷn sy'n byw ar yr un aelwyd, lle mae'r cartref tu allan i ardal dalgyrch uwchradd yr ysgol pan fydd y disgybl yn dechrau'r ysgol. I fod yn gymwys, rhaid i frodyr neu chwiorydd uwchradd fod rhwng Blynnyddoedd 7 – 13 ac yn achos Ysgol Pob Oed, dylai frodyr neu chwiorydd cynradd fod rhwng dosbarth derbyn a Blwyddyn 6 ⁶.
- e. Lleoliad y cartref mewn perthynas â'r ysgol ac ysgolion eraill os yw tu allan i ardal dalgyrch uwchradd presennol yr ysgol.

Diffinir dalgyrch yr ysgol uwchradd gan yr ysgolion cynradd sy'n bwydo (gweler **Atodiad 4**).

Mae'r nodiadau isod yn egluro'r meini prawf mewn mwy o fanylder:

- Yng nghyd-destun derbyn plant rhaid i frodyr a chwiorydd fyw yn yr un cartref. Mae 'brodyr a chwiorydd' yn cynnwys hanner brodyr a chwiorydd, llys frodyr a chwiorydd, plant sydd wedi cael eu maethu a phlant sy'n derbyn gofal, neu blant a fu'n derbyn gofal yn flaenorol.
- Byddwn yn dyrannu lleoedd ar sail y llwybr cerdded mwyaf diogel, byrraf a mwyaf ymarferol i'r ysgol, yn nhrefn eu pellter, hyd at nifer y lleoedd sydd ar gael. Rhoddir y flaenoriaeth uchaf i'r disgybl sy'n byw agosaf i'r ysgol. Bydd y pellter yn cael ei fesur o'r fan fynediad agosaf ar y ffordd fawr gyhoeddus i gartref arferol y disgybl sydd agosaf at yr ysgol ac yn cael ei fesur hyd at y glwyd ysgol agosaf. Rydym yn defnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol MapInfo i fesur pellterau.
- Y cartref arferol yw lle mae'r rhiant/gofalwr sy'n derbyn y budd-dal plant ar gyfer y plentyn yn byw fel arfer (mae hwn hefyd yn berthnasol pan fydd plentyn yn byw gyda rhiant/gofalwr sy'n rhannu cyfrifoldeb am ran o'r wythnos). Rhaid i'r plentyn fyw a chysgu yn y cartref hwnnw am ran fwyaf yr wythnos.
- Ni ddylid ond gwneud **un** cais o **un** cyfeiriad, ac mewn achos lle bydd gan rieni/gofalwr warchodaeth ar y cyd am y plentyn, rhaid penderfynu ar yr ysgol sydd orau gennych **cyn** gwneud y cais. Gall hyn fod trwy'r llysoedd a gellid gofyn am dystiolaeth i gefnogi'r cais.
- Rydym yn dyrannu lleoedd o'r cyfeiriad ar y ffurflen dderbyn gyntaf. Felly os bydd teulu'n symud **rhaid** iddynt roi gwybod i'r Awdurdod Lleol er mwyn i ni fedru diwygio cofnodion y plentyn. Os nad ydych yn gwneud hyn gallwn dynnu lle'ch plentyn yn ôl.
- Gall yr Awdurdod Lleol hefyd archwilio cofnodion treth y cyngor. Os nad ydych wedi rhoi'ch cyfeirnod treth y cyngor ar eich cais, gallwn ysgrifennu atoch gan ofyn i chi roi prawf ychwanegol o'ch cyfeiriad.
- Pan fo mwy o geisiadau na lleoedd ar gael mewn ysgol, a lle gwnaethpwyd cais ar gyfer mwy nag un plentyn biolegol i fynychu'r un ysgol a grŵp blwyddyn, bydd yr Awdurdod yn cysylltu â'r ysgol i drin a thrafod dewisiadau maint dosbarthiadau dichonol.
- Os bydd dau gais yn yr un categori'n cael eu hystyried am le sydd ar ôl, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i bwy bynnag sy'n byw'n agosach i'r ysgol. Byddwn yn penderfynu hwn trwy fesur y ffordd fyrraf, fwyaf diogel a mwyaf ymarferol gan ddefnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol MapInfo. Os bydd y ddau ymgeisydd yn byw yn yr un bloc o fflatiau, bydd y lle'n cael ei ddyrannu i'r ymgeisydd sy'n byw yn y fflat â'r rhif isaf.

Weithiau, yn dilyn cylch derbyn arferol, bydd disgybl yn cael ei wrthod am le mewn ysgol lle'r oedd galw am lleoedd yn fwy na'r lleoedd ar gael. Os digwydd hyn bydd y disgybl yn cael ei roi ar restr aros am le tan **30 Medi** o'r flwyddyn ysgol honno'n unol â'r Cod Derbyn Ysgolion.

Byddwn yn dyrannu lleoedd i ddisgyblion ar restr aros yn unol â'r meini prawf a ddefnyddir pan fo mwy o geisiadau na lleoedd ar gael mewn ysgol. Ni fyddwn yn ystyried pa mor hir y buodd y disgybl ar y rhestr aros. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau am drosglwyddo rhwng ysgolion yn ystod y flwyddyn.

Ar ôl **30 Medi** bydd angen i rieni/ofalwyr gyflwyno cais newydd i'w plentyn gael ei dderbyn i'w dewis ysgol. Nid yw'r Awdurdod Lleol yn cadw rhestrau aros ar gyfer grwpiau blwyddyn nad ydynt ym flwyddyn dderbyn arferol i'r ysgol.

Derbyn Disgyblion gydag Anghenion Addysgol Arbennig neu Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ysgolion Arbennig

Mae gan Gyngor Sir Powys dair ysgol arbennig. Mae dwy o'r ysgolion arbennig (**Ysgol Cedewain** ac **Ysgol Penmaes**) yn darparu cyfleoedd dysgu ac amgylchoedd arbenigol sydd wedi eu haddasu at ofynion unigol ar gyfer dysgwyr rhwng 3-19 oed a chanddynt amrywiaeth eang o anawsterau dysgu.

Mae gan fwyafrif y dysgwyr sy'n mynychu **Ysgol Cedewain** ac **Ysgol Penmaes** Anawsterau Dysgu Difrifol, Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog, ac Anhwylder Sbectrwm Awtistig cymhleth. Ar ben hyn bydd gan lawer o ddysgwyr anhwylderau cydafiachedd a fydd yn effeithio arnynt fel dysgwyr. Gall y rhain gynnwys: Anawsterau Rhyngweithio a Chyfathrebu, Anawsterau Emosiynol a Chymdeithasol ac Anghenion Meddygol Synhwyrdd, Corfforol a Chymhleth.

Bwriad **Ysgol Cedewain** ac **Ysgol Penmaes** yw darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cynnwys datblygu a gweithredu rhaglenni dysgu sydd wedi eu llunio i ddiwallu anghenion yr unigolyn. **Ysgol Neuadd Brynllwarch** yw'r drydedd ysgol arbennig, sy'n darparu cyfleoedd ac amgylcheddau dysgu wedi'u teilwra ac arbenigol i ddysgwyr rhwng 8-19 oed. Mae gan y dysgwyr hyn anghenion dysgu sy'n gysylltiedig ag Anawsterau Emosiynol, Cymdeithasol ac Ymddygiadol. Trwy ddysgu o'r radd flaenaf a meithrin dysgwyr, mae Brynllwarch yn eu galluogi i reoli eu hemosiynau ac ennill eu plwyf mewn cymdeithas fel dysgwyr gydol oes.

Meini Prawf Derbyn Dysgwyr i Ysgolion Arbennig

Er nad yw mynediad i'r tair ysgol arbennig yn dod o dan y trefniadau derbyn safonol ar gyfer ysgolion prif ffrwd, Cyngor Sir Powys yw'r awdurdod derbyn a'r cyngor sy'n pennu'r trefniadau derbyn:

- Rhaid i ddysgwyr sy'n byw yng Nghymru ac sy'n mynychu un o ysgolion arbennig Powys gael Datganiad o Anghenion Arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Bydd gan ddysgwyr sy'n byw yn Lloegr ond sy'n mynychu un o ysgolion arbennig Powys Gynllun Gofal, Iechyd ac Addysg (EHCP). Mewn amgylchiadau eithriadol gallwn dderbyn dysgwyr tra bydd y dogfennau'n cael eu paratoi;
- Ni fyddwn ond yn derbyn dysgwyr i ysgol arbennig os byddant yn diwallu meini prawf derbyn yr ysgol honno;

- Fel arfer bydd dysgwyr yn cael eu derbyn i ysgol ym mis Medi, ond efallai y bydd plant yn cael eu derbyn trwy gydol y flwyddyn ysgol oherwydd eu bod yn cael eu trosglwyddo o awdurdodau lleol eraill. Efallai y bydd amgylchiadau eithriadol eraill sy'n golygu bod rhaid derbyn disgybl ynghynt;
- Panel Asesu Statudol yr awdurdod lleol fydd yn penderfynu p'un ai i dderbyn disgybl ai peidio. Ni allwn ymrwmo i dderbyn plentyn hyd nes bod y Panel Asesu Statudol wedi cwrdd i drafod pob achos unigol a bod cynnig derbyn ffurfiol yn cael ei anfon.

Derbyn Plant i Ganolfannau Arbenigol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion

Er nad yw mynediad i Ganolfannau Arbenigol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn dod o dan y trefniadau derbyn safonol ar gyfer ysgolion prif ffrwd, erys y ffaith mai Cyngor Sir Powys yw'r awdurdod derbyn a'r cyngor sy'n pennu'r trefniadau derbyn:

- Nid yw'n hanfodol i ddysgwyr sy'n mynychu Canolfannau Arbenigol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion gael Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig cyn cael eu derbyn;
- Byddwn fel arfer yn derbyn dysgwyr i Ganolfannau Arbenigol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ar ddechrau hanner tymor (neu cyn gynted â'i bod yn ymarferol). Ond efallai y bydd dysgwyr yn cael eu derbyn trwy gydol y flwyddyn ysgol oherwydd eu bod yn trosglwyddo o awdurdodau lleol eraill. Efallai y bydd amgylchiadau eithriadol eraill sy'n golygu bod rhaid derbyn disgybl ynghynt;
- Panel Cynhwysiant (PIP) yr awdurdod lleol fydd yn penderfynu ar dderbyniadau. Ni allwn ymrwmo i dderbyn plentyn nes bod y Panel wedi cwrdd i drafod pob achos unigol a bod cynnig ffurfiol yn cael ei anfon; yn ogystal,
- Pan fydd cynnig dros dro wedi cael ei wneud i ddysgwr fynychu Canolfan Arbenigol, **rheid i rieni / ofalwyr wneud cais i fynychu'r ysgol lle mae'r Ganolfan Arbenigol wedi'i lleoli hefyd, trwy'r system gwneud cais ar-lein. Ni allwn gytuno i gynnig lle yn y Ganolfan Arbenigol yn ffurfiol nes bod lle yn yr ysgol wedi cael ei gadarnhau.**

Gwybodaeth Derbyn Ychwanegol

Ceisiadau Hwyr

Ni fyddwn ond yn ystyried ceisiadau hwyr a dderbyniwyd ar ôl y dyddiadau cau os bydd rhesymau eithriadol pam na allai'r ymgeisydd wneud cais mewn pryd. Gall hyn fod mewn achos lle symudodd y teulu i mewn i'r Awdurdod Lleol rhwng y dyddiad cau a'r dyddiad cynnig. Mewn achos felly byddwn yn gofyn am dystiolaeth newid cyfeiriad. Neu os bydd rhesymau eithriadol eraill a rwystrodd y teulu'n gwneud cais mewn pryd.

Rhaid i chi gynnwys rhesymau am geisiadau hwyr trwy lythyr gyda'r gais gan atodi unrhyw dystiolaeth gefnogol briodol.

Byddwn yn delio â phob cais hwyr nad yw'n eithriad ar ôl y rheiny a wnaeth cais erbyn y dyddiadau cywir.

Y Dyddiad **Cynnig Cyffredinol i Ysgolion Cynradd** ar gyfer pob Awdurdod Derbyn yng Nghymru yw **16 Ebrill**, neu'r diwrnod gwaith nesaf.

Y Dyddiad **Cynnig Cyffredinol i Ysgolion Uwchradd** ar gyfer pob Awdurdod Derbyn yng Nghymru yw **1 Mawrth**, neu'r diwrnod gwaith nesaf.

Os ydych yn gwneud cais hwyr am le mewn ysgol lle mae mwy o geisiadau na lleoedd ar gael, ar ôl inni ddyrannu lleoedd byddwn yn cynnig lle mewn ysgol eich ail ddewis, neu ysgol addas arall sydd â lle. Mae gennych hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn.

Ceisiadau Cynnar

Ni ellir defnyddio cais cynnar fel maen prawf i roi blaenoriaeth wrth ddyrannu lleoedd. Byddwn yn ystyried ceisiadau rhieni sy'n datgan pa ysgol gynradd ac uwchradd sydd orau ganddynt erbyn y dyddiad cau a gyhoeddir yn erbyn y meini prawf rydym wedi eu cyhoeddi.

Derbyn Plant ar Adegau Eraill (Yn Ystod y Flwyddyn)

Rhaid i rieni lenwi a dychwelyd Ffurflen Gais Derbyn yn ystod y Flwyddyn. Mae'r rhain ar gael ar wefan Cyngor Sir Powys: <https://cy.powys.gov.uk/article/7627/Gwneud-Cais-am-Le-Mewn-Ysgol> .

Ni ddylech wneud cais fwy nag un tymor ymlaen llaw ac ni allwn gadw lle yn yr ysgol ar eich cyfer. Felly ni fyddwn yn prosesu ceisiadau a wneir y tu allan i'r amserau hyn. Unwaith bod lle mewn ysgol wedi cael ei gynnig, dylech gytuno ar y dyddiad dechrau gyda'r ysgol dan sylw. Rhaid llenwi ffurflenni'n llawn er mwyn inni eu prosesu'n gywir.

Nid yw'ch cyfeiriad cartref wedi newid: Os oes gennych blentyn / blant mewn ysgol gynradd neu uwchradd ac rydych am symud eich plentyn / plant i ysgol wahanol ar unrhyw adeg, ac eithrio oherwydd newid cartref, dylech drafod y mater â Phennaeth eich ysgol bresennol yn gyntaf. Dywedwch pam rydych yn gofyn am newid ysgol. Wedyn ewch at Bennaeth eich dewis ysgol i drafod a oes modd iddo / iddi dderbyn eich plentyn gan egluro pam rydych yn gofyn am newid ysgol.

Pan fydd newid ysgol yn cael ei gymeradwyo, lle nad yw hyn oherwydd newid cyfeiriad, bydd y newid fel arfer yn digwydd ar ddechrau'r tymor neu'r hanner tymor nesaf. Bydd hyn yn sicrhau bod y newid yn amharu ar addysg eich plentyn eich hun a phlant eraill cyn lleied ag y bo modd. Dylai disgyblion barhau i fynychu eu hysgol bresennol nes bod lle ysgol wedi cael ei drefnu.

Os ydych yn newid cartref: Os ydych yn gwneud cais oherwydd eich bod yn newid cyfeiriad, dylech sicrhau eich bod yn rhoi digon o rybudd er mwyn inni ystyried a threfnu newid ysgol. Ni all y Tîm Derbyn ystyried ceisiadau hyd nes eu bod wedi derbyn cadarnhad o ddyddiad symud tŷ. Efallai y byddwn yn gofyn am ddogfennau megis llythyr Cyfreithiwr i gadarnhau cyfnewid cytundebau neu gopi o'ch cytundeb rhentu wedi ei arwyddo fel tystiolaeth i gefnogi'ch

cais. Dylech gynnwys y rhain gyda'ch cais os oes modd er mwyn i ni allu bwrw ymlaen â'ch cais.

Os ydych yn gwneud cais oherwydd eich bod yn symud i'r Deyrnas Unedig byddwn yn gofyn am ddogfennau fel tystiolaeth i gefnogi'ch cais. Fel arfer mae'r canlynol yn dderbyniol: copi o basport y disgybl, tystysgrif eni, llythyr budd-dal plant neu gerdyn meddygol. Hefyd byddwn yn gofyn am gopi o'ch llythyr cytundeb rhentu neu lythyr cyfnewid cytundeb. Mae'r Awdurdod Derbyn yn cadw'r hawl i ofyn am fwy o ddogfennau fel tystiolaeth fel y bo'n briodol. Lle bydd cyfeiriad y cartref yn newid ac mae rhieni'n dymuno trosglwyddo eu plentyn / plant i ysgol arall bydd y proses derbyn arferol yn berthnasol.

Dewis Ysgolion

Mae rhieni'n datgan dau ddewis ar eu ffurflen gais. Os nad yw'r Awdurdod Derbyn yn gallu cynnig lle yn yr ysgol o'u dewis cyntaf, neu eu hail ddewis, byddwn yn cynnig lle yn yr ysgol agosaf at eu cyfeiriad cartref sydd â lleoedd ar gael.

Wrth iddynt ddewis ysgol, mae sawl elfen y bydd rhieni/gofalwyr am ei hystyried megis iaith yr addysg (Cymraeg ynteu Saseneg), maint yr ysgol, ei lleoliad, hanes academaidd a'i gwerthoedd. Yn ogystal, efallai y bydd rhieni/gofalwyr yn dymuno ystyried polisi'r Awdurdod o ran cludiant. Mae hwn ar gael ar wefan Powys: <https://cy.powys.gov.uk/article/3881/Gwneud-Cais-am-Gludiant-Ysgol>

Wrth i rieni/ofalwyr ystyried ysgol, bydd y cyngor canlynol yn ddefnyddiol:

- Gofynnwch am brospectws yr ysgol - mae hwn yn rhoi gwybodaeth gyffredinol amdani. Yn ogystal, gofynnwch am gopiâu adroddiadau arolwg a chanlyniadau arholiadau diweddar
- Cofiwch ymweld â'r ysgolion dan sylw gyda rhestr o gwestiynau rydych wedi eu paratoi ymlaen llaw am eich plentyn a'i hanghenion / ei anghenion;
- Holwch ynghylch cyfleusterau sy'n gysylltiedig â diddordebau'ch plentyn (e.e. chwarae, gwyddoniaeth, cerddoriaeth ac yn y blaen);
- Os ydych yn dewis ysgol y tu allan i'ch dalgylch arferol, chi fydd yn gyfrifol am ddarparu cludiant ac unrhyw gostau cysylltiedig.

Mae trafodaethau gyda'r Pennaeth yn werthfawr i rieni/ofalwyr sydd am ddod i wybod am ysgol yn fanwl. O ochr y Pennaeth mae'n gyfle iddi / iddo egluro agweddau, gwerthoedd a disgwyliadau'r ysgol. Er bod yr Awdurdod yn annog trafodaethau o'r fath, rhaid pwysleisio na fyddant yn effeithio ar obeithion y plentyn o gael lle yn yr ysgol.

Fe welwch wybodaeth sylfaenol am ysgolion a gynhelir gan Gyngor Sir Powys yn **Atodiad A** ac **Atodiad C**. Ar ben hyn, dylech geisio gwybodaeth fwy fanwl am ysgol ynghyd â chopi o'r prospectws oddi wrth y Pennaeth.

Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr (Ysgolion Ffydd)

Mae Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr (Ysgolion Ffydd) yn rheoli ceisiadau derbyn a dyrannu lleoedd eu hunain. Mae derbyn plant i Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr yn cael ei benderfynu gan Gorff Llywodraeth yr ysgolion unigol hyn.

Dylech gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol am wybodaeth dderbyn, polisïau ac apeliadau'r ysgol honno. Gallwch weld manylion yr ysgolion hyn a'u polisïau derbyn yn **Atodiad B**.

Derbyn Disgyblion i Ysgolion nad ydynt yn cael eu cynnal gan Gyngor Sir Powys

Caiff rhieni/gofalwyr wneud cais i'w plentyn/plant fynychu ysgol mewn Awdurdod Lleol arall. Os yw lle'n cael ei ddyrannu y tu allan i sir Powys, neu os nad yw'r ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Powys, ni fydd yr Awdurdod Lleol fel arfer yn darparu costau cludiant neu breswyllo.

Nid oes gan yr Awdurdod Lleol drefniadau lle caiff plentyn fynychu ysgol nad yw'n cael ei chynnal gan Awdurdod Lleol ac eithrio ar gyfer addysg arbennig. Felly os ydych yn dymuno i'ch plentyn fynychu ysgol nas cynhelir neu ysgol annibynnol, dylech fynd at yr ysgol honno'n uniongyrchol. Chi wedyn fydd yn gyfrifol am yr holl gostau y bydd rhaid i chi eu talu.

Addysg Gyfrwng Cymraeg

Mae Cyngor Sir Powys wedi ymrwymo i sicrhau bod addysg Gymraeg ar gael i'r holl blant y mae eu rhieni/eu gwarcheidwaid yn dymuno hynny. Mae ar gael ar draws Powys, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mewn ffrydiau Cymraeg mewn ysgolion dwy ffrwd.

Fel arfer mae disgwyl i ddisgyblion sy'n derbyn eu haddysg gynradd trwy'r Gymraeg barhau i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol uwchradd. Darperir addysg Gymraeg uwchradd mewn ffrydiau Cymraeg mewn nifer o ysgolion uwchradd ledled y sir. Er bod nifer y pynciau a ddysgir trwy'r Gymraeg yn amrywio o ysgol i ysgol, nod Cyngor Sir Powys a phob ysgol uwchradd sydd â ffrwd Gymraeg yw dysgu pob pwnc a gynigir ar y cwricwlwm trwy'r Gymraeg a'r Saesneg ym mhob Cyfnod Allweddol. Mae hyn yn sicrhau cyfle cyfartal a chydaddoldeb darpariaeth i bob disgybl ym Mhowys. Trwy ddatblygu ei gynlluniau trawsnewid addysg mae'r Cyngor Sir wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod addysg allweddol.

Y Defnydd o'r Iaith Gymraeg mewn Addysg Cyfrwng Saesneg

Mae'r Gymraeg yn bwnc gorfodol ar gyfer pob disgybl yng Nghymru tan ddiwedd addysg orfodol (hyd at un ar bymtheg mlwydd oed). Felly, hyd yn oed os bydd eich plentyn yn derbyn y rhan fwyaf o'i addysg yn Saesneg, byddant wedi cael gwersi Cymraeg fel Ail Iaith.

Yn y sector cynradd mae tîm Athrawon Bro'r Cyngor yn cefnogi ysgolion i ddysgu'r Gymraeg fel Ail Iaith.

Diffiniadau o ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio categorïau i ddiffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dyma'r categorïau ar gyfer ysgolion cynradd

Categori 1	Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg
Categori 2	Ysgol gynradd ddwy ffrwd
Categori 3	Ysgol gynradd drawsnewidiol: Cyfrwng Cymraeg ond â defnydd sylweddol o'r Saesneg
Categori 4	Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg
Categori 5	Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf

Dyma'r categorïau ar gyfer ysgolion uwchradd:

Categori 1	Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg
Categori 2a	Ysgol uwchradd ddwyieithog – addysgir o leiaf 80% o'r pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg i'r holl ddisgyblion
Categori 2b	Ysgol uwchradd ddwyieithog – addysgir o leiaf 80% o'r pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u dysgir hefyd trwy gyfrwng y Saesneg
Categori 2c	Ysgol uwchradd ddwyieithog – addysgir 50-79% o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u dysgir hefyd trwy gyfrwng y Saesneg
Categori 2	Ysgol uwchradd ddwyieithog – addysgir pob pwnc ac eithrio'r Saesneg a'r Gymraeg i bob disgybl gan ddefnyddio'r naill iaith a'r llall
Categori 3	Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg
Categori 4	Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf

Mae mwy o wybodaeth am y categorïau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/diffinio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg>

Maint Dosbarthiadau Babanod

